



Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Carlton House
Llan-non
SY23 5HZ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

06/05/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Gofal Preswyl Carlton House

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb nyrsio
Darparwr cofrestredig	CARTREF GOFAL PRESWYL CARLTON HOUSE
Lleuedd cofrestredig	16
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus iawn gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn, dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"Does dim rhaid i chi boeni am unrhyw beth yma! Maen nhw i gyd mor wych ac mor ofalgar"*. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu harwain gan gynlluniau cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r holl staff yn adnabod y bobl yn dda a gwelsom lawer o ryngweithio cynnes a chyfeillgar. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"Rwyf wrth fy modd gyda fy swydd, mae'r preswylwyr yn hawdd mynd atynt ac mae'r lle yn gartrefol iawn"*.

Mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn cymdeithasu yn y gwahanol ardaloedd cymunedol, gerddi neu yn eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r staff ac aelodau'r teulu yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi'r bobl i barhau'n aelodau gweithgar o'u cymuned leol.

Mae cynrychiolwyr y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn gadarnhaol a dywedodd un wrthym *"mae'r lle hwn wedi bod yn wych iddo a hebddynt, nid wyf yn gwybod lle byddai wedi bod"*. Mae'r bobl, aelodau o'u teuluoedd a'r staff yn gwerthfawrogi'r unigolyn cyfrifol a rheolwyr y gwasanaeth ac mae ganddynt ffydd a hyder ynddynt.

Llesiant

Mae'r bobl yn siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar bethau sydd o bwys i unigolion. Mae'r rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i helpu'r bobl i aros mor iach â phosib. Mae'r bobl yn cael eu parchu fel unigolion, ac mae'r rhyngweithio â'r tîm staff yn gynnes ac yn gyfeillgar. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, sy'n golygu eu bod yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg fel y mynnant. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“Mae'n fach ac yn lle cartrefol iawn, gyda staff sy'n siarad Cymraeg, mae mor bwysig achos dyna ei iaith gyntaf”*.

Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a chymorth iawn, gan weithwyr gofal dawnus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt hyder yn yr unigolyn cyfrifol a'r rheolwyr.

Mae'r amgylchedd yn olau ac yn groesawgar; mae llawer o wahanol ardaloedd cymunol i'r bobl gymdeithasu ynddynt ac i wneud pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus. Gall yr unigolion roi eitemau personol yn eu hystafelloedd gwely. Mae'r tiroedd a'r gerddi yn hygyrch i'r bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, a'u helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae prosesau llywodraethu'n canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau mewnol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â rhedeg y cartref o ddydd i ddydd, mae'r bobl a'r staff yn siarad ag ef am wella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn adroddiadau ymweliad rheoliad 73 a'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe mis.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn frwdfrydig iawn am y gofal a'r cymorth unigol y maent yn ei dderbyn. Mae'r rhyngweithiadau'n gyfeillgar ac yn ofalgar, dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"Maen nhw (y gweithwyr gofal) i gyd mor wych ac mor ofalgar"*. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth a dywedodd un *"Rydyn ni'n hapus oherwydd ei bod hi'n ddiogel ac yn derbyn gofal da iawn"*. Dywedodd un gofalwr wrthym *"Rwyf wrth fy modd â'r effaith a gawn ar y bobl, hefyd mae'r ymddiriedaeth a'r berthynas sydd gennyf gyda'r bobl yn wych"*. Mae'r rheolwr yn asesu ystod o wybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer sut mae'n darparu gofal a chymorth i unigolion. Dywedodd y bobl a'r staff wrthym fod y rheolwr yn adolygu cynlluniau yn rheolaidd gyda nhw fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ond mae angen cofnodi hyn yn well. Mae'r rheolwr yn bwriadu cael nodiadau manylach ar bwy sy'n cymryd rhan yn yr adolygiadau a byddwn yn eu gwirio yn yr arolygiad nesaf. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gwblhawyd ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl o safbwynt yr unigolyn sy'n dangos effaith y gofal a'r cymorth. Mae tystiolaeth ddogfennol dda o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl. Dywedodd gweithiwr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol a oedd yn ymweld wrthym *"Ar y cyfan maen nhw'n ofalgar iawn ac mae'r preswylwyr yn ymddangos yn hapus iawn"*. Mae uwch weithwyr gofal yn rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Gwelsom fod y trefniadau storio a rhoi meddyginiaeth yn dda gyda chofnodion cywir ar gyfer pob unigolyn.

Yn ystod y pandemig, arhosodd y bobl mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau trwy ddefnyddio galwadau fideo a ffôn. Cynhelir ymweliadau y tu mewn a'r tu allan i'r gwasanaeth yn unol â'r canllawiau diweddaraf i unigolion.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth, y tiroedd a'r ardal leol. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser, gallant fynd i unrhyw un o'r ardaloedd cymunol neu dreulio amser yn eu hystafelloedd eu hunain. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"Mae'r cartref yn brydferth ac mae'n hyfryd eistedd yma a sgwrsio gyda'n gilydd, mae gennym ni gymuned hyfryd"*.

Mae'r staff yn gweithio fel tîm ac mae niferoedd digonol o weithwyr ar gael i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y staff ddealltwriaeth dda iawn o anghenion a dewisiadau unigol ac yn sicrhau eu bod yn treulio amser gyda phobl.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da drwyddi draw, mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru. Dywedodd un unigolyn wrthym *"mae'r*

staff yn ardderchog, maen nhw bob amser yn gwisgo eu cyfarpar diogelu personol ac maen nhw wedi helpu i'n cadw ni'n ddiogel".

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn olau, yn ffres ac yn gartrefol, gyda gerddi croesawgar a hygyrch. Mae'r rheolwr yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cefnogi'r bobl yn unol â'u hanghenion ac yn defnyddio ffotograffau unigol i helpu'r bobl i ymglyfeirio. Gall y bobl ddefnyddio'r gwahanol ardaloedd cymunol i gymdeithasu â'i gilydd neu i gael amser tawel ar eu pennau eu hunain. Mae'r bobl yn symud o gwmpas y gwasanaeth fel y mynnant ac yn ymddangos yn gyfforddus ac wedi ymlacio yn y manau cymunol. Mae'r bobl yn gallu rhoi eitemau personol yn eu hystafelloedd unigol, gan gynnwys lluniau, paentiadau, dodrefn a theledu cebl eu hunain. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"Mae fy ystafell fel yr wyf ei heisiau ac mae fy lluniau yn wych, maen nhw'n fy atgoffa o rai adegau hapus iawn"*. Mae aelodau'r teulu yn canmol yr amgylchedd a dywedodd un wrthym *"Mae'n gartref cartrefol iawn"*.

Mae materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn brydlon ac mae'r tîm domestig yn ymroddedig i gadw'r adeilad yn lân ac yn ffres. Cwblheir archwiliadau lechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo. Mae'r gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Tân ac mae'r profion ar offer diogelwch tân yn gyfredol.

Mae'r staff arlwyo yn cynnwys y bobl wrth gynllunio'r fwydlen ac yn adnabod hoff a chas bethau unigolion yn dda. Mae'r bobl yn cael dau bryd poeth y dydd, cacennau a bisgedi cartref, ac yn gwneud dewisiadau amgen pryd bynnag y dymunant. Mae amseroedd bwyd yn ddigwyddiadau cymdeithasol a dywedodd rhywun wrthym *"mae'r bwyd yn wych, yn hyfryd a'r cyfan yn fwyd cartref"*. Wrth drafod y prydau dywedodd aelod o'r teulu *"mae'r bwyd yn ardderchog ac mae hi wrth ei bodd"*.

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith. Mae gorsafoedd glanweithdra ym mhob rhan o'r gwasanaeth a gweithdrefn brofi lem ar gyfer pob ymwelydd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn disgrifio diwylliant teuluol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymwneud â rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, mae'n hygyrch ac yn adnabod y bobl a'r staff yn dda. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“Mae [yr unigolyn cyfrifol] yma bob amser, gallaf ofyn unrhyw beth iddo ac os oes angen datrys rhywbeth, mae'n ei ddatrys yn syth”*. Mae'r gweithwyr gofal yn gwerthfawrogi'r cymorth sydd ar gael a dywedodd un wrthym *“Mae [yr unigolyn cyfrifol] bob amser yno i gael cyngor os oes angen”*. Mae trefniadau ar waith ar gyfer monitro a gwella'r gwasanaeth. Mae adroddiadau ymweliad chwarterol yr unigolyn cyfrifol a'r Adolygiad Ansawdd Gofal chwe mis yn defnyddio gwybodaeth o archwiliadau rheolwyr ac yn rhestru camau gweithredu i wella'r gwasanaeth.

Mae'r holl staff yn gadarnhaol ynghylch yr arweinyddiaeth yn y gwasanaeth, dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“Rwyf wrth fy modd gyda fy swydd, mae gennym reolwyr cyfeillgar ac mae'n hawdd mynd atynt a dwi byth yn poeni am ffonio unrhyw un ohonyn nhw”*. Mae'r rheolwyr yn ymarferol ac yn rhannu amser rhwng gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl a dyletswyddau gweinyddol. Mae'r bobl yn siarad yn agored â'r rheolwyr ac wedi meithrin perthynas gadarnhaol â nhw. Mae cynrychiolwyr yn gwybod sut i godi pryderon os oes angen a dywedodd un wrthym *“Maen nhw [y rheolwyr] yn hawdd iawn mynd atynt ac mae'n hawdd siarad â nhw”*.

Mae polisiau a gweithdrefnau yn gyfredol ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol ohonynt. Mae'r gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“Mae goruchwyliaeth yn ddefnyddiol, rydym yn trafod pynciau rheolaidd, fel niwed pwysau, rheoli heintiau a dementia. Mae'n fy helpu i aros ar ben pethau”*. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu ac yn dilyn mesurau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae sefydlu effeithiol a hyfforddiant parhaus yn sicrhau bod gan staff y sgiliau a'r wybodaeth gywir i ddiwallu anghenion pobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“roedd y cyfnod sefydlu yn wych ac mae wedi fy helpu i ddod i arfer â threfn arferol y cartref”*

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod niferoedd digonol o staff gofal profiadol yn gweithio ar shifft i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi meithrin perthnasoedd da gyda'r bobl ac yn deall eu hanghenion unigol.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol

	yn yr arolygiad hwn	
--	---------------------	--

Dyddiad cyhoeddi 21/06/2022'